The Electoral Commission

RNIB Cymru
Golwg gwahanol
See differently

# Etholiad y Senedd 2026: Gwybodaeth i bleidleiswyr dall ac â golwg rhannol yng Nghymru

Bydd etholiad y Senedd yn cael ei gynnal ar ddydd Iau 7 Mai. Mae gan y Senedd bwerau i wneud deddfau ar gyfer Cymru ar amrywiaeth o feysydd gan gynnwys iechyd, yr economi, addysg, tai, trafnidiaeth, yr iaith Gymraeg a rhai trethi.

Mae camau y dylech eu cymryd nawr i wneud yn siŵr eich bod yn barod i bleidleisio. Mae'r canllaw yma wedi cael ei greu gan y Comisiwn Etholiadol mewn partneriaeth ag RNIB Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am bleidleisio yn yr etholiad yma ar gael ar wefan y Comisiwn Etholiadol, sy'n hygyrch ac mae posib ei defnyddio gyda thechnoleg gynorthwyol. Gallwch hefyd ofyn am gopi o'r canllaw yma mewn Braille, print bras neu sain drwy gysylltu ag RNIB Cymru ar CymruCampaigns.Mailbox@rnib.org.uk.

## Dyddiadau allweddol

- **Dydd Llun 20 Ebrill, 11.59 pm** - Dyddiad cau i gofrestru i bleidleisio
- **Dydd Mawrth 21 Ebrill, 5 pm** - Dyddiad cau i wneud cais am bleidlais bost
- **Dydd Mawrth 28 Ebrill, 5 pm** - Dyddiad cau i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy

- **Dydd Iau 7 Mai, 7 am i 10 pm** - Diwrnod pleidleisio

## Beth mae'r Senedd yn ei wneud?

Yn yr etholiad yma, byddwch yn pleidleisio dros bwy rydych chi ei eisiau i'ch cynrychioli yn Senedd Cymru, sy'n cael ei galw yn gyffredin yn Senedd.

Mae gan y Senedd bwerau i wneud deddfau ar gyfer Cymru ar amrywiaeth o feysydd gan gynnwys iechyd, yr economi, addysg, tai, trafnidiaeth, yr iaith Gymraeg a rhai trethi.

Am ragor o wybodaeth am y Senedd, ewch i senedd.cymru/etholiad.

## Mae'r Senedd yn newid

Mae Cymru wedi cael ei rhannu'n 16 etholaeth newydd ar gyfer yr etholiad yma. Bydd gan bob etholaeth 6 Aelod, gan wneud cyfanswm o 96 Aelod wedi'u hethol i'r Senedd yn lle'r 60 sydd ganddi nawr.

I ddod o hyd i'ch etholaeth newydd, ewch i etholaeth.senedd.cymru.

## Pwy sy'n cael pleidleisio yn etholiad y Senedd?

Gallwch bleidleisio yn etholiad y Senedd os ydych chi wedi cofrestru i bleidleisio yng Nghymru, os byddwch chi'n **16 oed neu'n hŷn** ar ddydd Iau 7 Mai 2026 ac os ydych chi'n bodloni'r canlynol:

- rydych chi'n ddinesydd o'r DU neu Iwerddon neu

- rydych chi'n ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad sydd â chaniatâd i aros yn y DU neu heb fod angen caniatâd o'r fath neu
- rydych chi'n ddinesydd tramor cymwys sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi neu heb fod angen caniatâd o'r fath, gan gynnwys dinasyddion yr UE

**Nid** yw dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor yn cael pleidleisio yn yr etholiad yma.

Am ragor o wybodaeth am gymhwysedd a phwy sy'n cael pleidleisio ewch i electoralcommission.org.uk/who-can-vote.

## Cofrestru i bleidleisio

Rhaid i chi fod wedi cofrestru i bleidleisio erbyn **11.59 pm** ar ddydd Llun 20 Ebrill 2026 i bleidleisio yn yr etholiad yma.

Os nad ydych chi wedi cofrestru erioed, neu os ydych chi wedi newid eich cyfeiriad neu eich enw yn ddiweddar, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n diweddaru eich manylion cyn y dyddiad cau.

Gallwch gofrestru yn gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio, neu drwy lenwi ffurflen gais bapur. I ofyn am ffurflen gais neu gymorth pellach, cysylltwch â'r tîm gwasanaethau etholiadol yn eich cyngor lleol. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon, neu drwy nodi eich cod post yn electoralcommission.org.uk/next-election.

## Dull adnabod pleidleiswyr

**Nid** oes raid i chi ddangos dull adnabod ffotograffig er mwyn pleidleisio yn etholiad y Senedd.

## Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio

Bydd y gorsafoedd pleidleisio ar agor o **7 am i 10 pm ar ddydd Iau 7 Mai**.

Byddwch yn derbyn cerdyn pleidleisio a fydd yn dweud wrthych chi ble mae eich gorsaf bleidleisio. Efallai nad hon fydd yr orsaf lle gwnaethoch chi bleidleisio y tro diwethaf. Os yw eich gorsaf bleidleisio wedi newid, efallai y bydd angen i chi gynllunio eich llwybr ymlaen llaw neu fynd ag aelod o'r teulu neu ffrind gyda chi.

Yn agosach at y diwrnod pleidleisio, byddwch yn gallu gwirio ble mae eich gorsaf bleidleisio a dod o hyd i'r rhestr o ymgeiswyr drwy nodi eich cod post yn electoralcommission.org.uk/next-election neu drwy ffonio 0800 3 280 280.

## Help yn yr orsaf bleidleisio

Gallwch fynd â ffrind gyda chi i'ch helpu yn yr orsaf bleidleisio, neu gallwch ofyn i aelod o staff yr orsaf bleidleisio eich helpu. Rhaid i'ch ffrind fod yn 16 oed neu'n hŷn a bydd angen iddo lenwi ffurflen yn yr orsaf bleidleisio.

Gall y person sy'n eich helpu chi eich tywys rhwng y fynedfa, y ddesg, y bwth pleidleisio a'r bocs i roi eich pleidlais ynddo. Gallant hefyd farcio'r papur pleidleisio ar eich rhan yn unol â'ch cyfarwyddiadau.

## Offer cynorthwyol

Mae gennych yr hawl i ofyn am addasiadau rhesymol i'ch helpu i bleidleisio yn etholiad y Senedd. Y peth gorau yw cysylltu â'ch Swyddog Canlyniadau lleol neu eich tîm gwasanaethau etholiadol cyn gynted â phosibl i roi gwybod iddyn nhw pa offer sydd arnoch ei angen i bleidleisio'n annibynnol.

Am ragor o wybodaeth am y dyfeisiau sain sydd ar gael ac i ddod o hyd i lythyrau templed y gallwch eu defnyddio i wneud cais, ewch i wefan RNIB Cymru.

## Papur pleidleisio print bras

Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob gorsaf bleidleisio arddangos copi print bras o'r papur pleidleisio i gyfeirio ato. Rhaid iddynt hefyd ddarparu copi cyfeirio i chi fynd ag ef i'r bwth gyda chi. Gallwch ddefnyddio'r copi print bras i ddarllen yr holl wybodaeth ar y papurau pleidleisio, ond rhaid i chi fwrw eich pleidlais ar y papur pleidleisio print safonol.

## Dyfais bleidleisio gyffyrddol

Os yw'n anodd i chi lenwi'r papur pleidleisio print safonol, gallwch ddefnyddio dyfais bleidleisio gyffyrddol i helpu i farcio eich pleidlais yn y lle cywir. Rhaid i bob gorsaf bleidleisio ddarparu dyfais bleidleisio gyffyrddol.

Mae gan y ddyfais bleidleisio gyffyrddol gefn gludiog, sy'n cael ei osod dros eich papur pleidleisio. Bydd aelod o staff yn cysylltu'r ddyfais bleidleisio gyffyrddol â'r papur pleidleisio. Mae ganddi fflapiau codi wedi'u rhifo (mae'r

rhifau wedi'u codi ac mewn Braille) yn uniongyrchol dros y bocsys lle rydych chi'n marcio eich pleidlais.

Bydd angen i chi ddefnyddio'r papur pleidleisio print bras neu ofyn i rywun (ffrind neu staff yr orsaf bleidleisio) ddarllen rhestr yr ymgeiswyr i chi. Bydd yr ymgeiswyr yn nhrefn yr wyddor.

### Apiau ffôn symudol a chwyddwydrau fideo

Mae canllawiau wedi'u cyhoeddi hefyd i staff gorsafoedd pleidleisio i nodi'n glir bod posib i bobl ddall ac â golwg rhannol ddefnyddio apiau ffôn symudol (fel "Seeing AI" sy'n gallu defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i ddarllen testun mewn print), neu ddyfeisiau chwyddwydrau fideo, i bleidleisio fel addasiad rhesymol.

## Ffyrdd eraill o bleidleisio

### Pleidleisio drwy'r post

Os yw'n well gennych chi bleidleisio drwy'r post neu os na fyddwch yn gallu cyrraedd yr orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, gallwch wneud cais i bleidleisio drwy'r post hyd at **5 pm ar ddydd Mawrth 21 Ebrill**.

I wneud cais i bleidleisio drwy'r post mae angen i chi lenwi ffurflen gais bapur. I ofyn am ffurflen gais neu gymorth pellach, cysylltwch â'r tîm gwasanaethau etholiadol yn eich cyngor lleol. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon, neu drwy nodi eich cod post yn electoralcommission.org.uk/next-election. Gallwch hefyd lawrlwytho'r ffurflen gais yn electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-

etholiadau/ffyrdd-i-bleidleisio/gwneud-cais-i-bleidleisio-drwyr-post

Pan fyddwch chi'n gwneud cais i bleidleisio drwy'r post, gofynnir i chi ddarparu eich dyddiad geni a'ch llofnod. Gofynnir i chi ddarparu hyn eto pan fyddwch chi'n cwblhau eich pleidlais bost, er mwyn gwirio pwy ydych chi. Os na allwch chi ddarparu llofnod cyson oherwydd anabledd, gallwch wneud cais am bleidlais bost gydag ymwadiad llofnod gan y tîm gwasanaethau etholiadol yn eich cyngor lleol, a fydd yn golygu na fydd angen i chi ddarparu llofnod pan fyddwch yn cwblhau eich pleidlais bost. Os na allwch chi ysgrifennu eich dyddiad geni pan fyddwch chi'n cwblhau eich pleidlais bost, gall rhywun eich cynorthwyo gyda hyn, ond mae'n rhaid i chi gwblhau eich papur pleidleisio eich hun.

Byddwch yn derbyn eich pecyn pleidleisio drwy'r post tua 5 i 11 diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio. Wedyn mae angen i chi gwblhau a dychwelyd y pecyn, gan sicrhau eich bod yn gadael digon o amser i'ch pleidlais bost gyrraedd erbyn y diwrnod pleidleisio.

## Pleidleisio drwy ddirprwy

Os na fyddwch chi'n gallu cyrraedd yr orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, mae gennych chi hefyd yr opsiwn o wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy, lle rydych chi'n dewis rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo i bleidleisio ar eich rhan. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy yw **5 pm ar ddydd Mawrth 28 Ebrill**.

I wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy mae angen i chi lenwi ffurflen gais bapur. I ofyn am ffurflen gais neu gymorth pellach, cysyllтwch â'r tîm gwasanaethau etholiadol yn eich cyngor lleol. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon, neu drwy nodi eich cod post yn electoralcommission.org.uk/next-election. Gallwch hefyd lawrlwytho'r ffurflen gais yn electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau/ffyrdd-i-bleidleisio/gwneud-cais-i-bleidleisio-drwy-ddirprwy

Bydd angen i'r person rydych chi'n ei ddewis i bleidleisio ar eich rhan fynd i'ch gorsaf bleidleisio. Gall hefyd ddewis gwneud cais i bleidleisio drwy'r post fel eich dirprwy, os yw'n ffafrio hynny.

## Sut mae'r system bleidleisio'n gweithio?

Mae'r ffordd rydych chi'n pleidleisio yn etholiadau'r Senedd wedi newid. Byddwch chi nawr yn pleidleisio gan ddefnyddio system bleidleisio o'r enw'r 'system rhestr gyfrannol gaeedig' i ethol Aelodau'r Senedd.

Mae hon yn ffurf ar gynrychiolaeth gyfrannol. Mae hyn yn golygu bod nifer y seddi y mae pob plaid neu ymgeisydd annibynnol yn eu hennill yn adlewyrchu canran y pleidleisiau maent yn eu derbyn.

**Byddwch yn derbyn un papur pleidleisio a bydd gennych chi un bleidlais i ddewis eich cynrychiolydd.** Bydd y papur pleidleisio'n dangos rhestr yr ymgeiswyr ar gyfer pob plaid wleidyddol yn eich etholaeth ac unrhyw ymgeiswyr annibynnol.

I bleidleisio, rhowch groes (X) yn y bocs wrth ymyl eich dewis o blaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol. Cofiwch, rydych chi'n pleidleisio dros un blaid wleidyddol neu un ymgeisydd annibynnol, nid ymgeiswyr unigol ar restr plaid.

Am ddisgrifiad manylach o'r system bleidleisio, ewch i electoralcommission.org.uk/senedd-voting.

## Manylion cyswllt ar gyfer timau gwasanaethau etholiadol eich cyngor lleol

Tabl yw hwn, wedi'i ffurfio o bedair colofn, gyda'r penawdau Cyngor; Cyfeiriad; Rhif ffôn; a Chyfeiriad e-bost; a gyda 23 o resi.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; Y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glynebwy, NP23 6DN; 01495 355086; electoralservices@blaenau-gwent.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; Y Swyddfeyd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB; 01656 643116; electoral@bridgend.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili; Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7WF; 01443 864203; electoralservices@caerphilly.gov.uk

Cyngor Sir Caerdydd; Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW; 029 2087 2087; electoralservices@cardiff.gov.uk

Cyngor Sir Caerfyrddin; Bloc 4, Parc Myrddin, Teras Richard, Caerfyrddin, SA31 1HQ; 01267 228889; electoralservices@carmarthenshire.gov.uk

Cyngor Sir Ceredigion; Neuadd y Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA; 01545 570881; electoralservices@ceredigion.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU; 01492 576051 ; electoral@conwy.gov.uk

Cyngor Sir Ddinbych; Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN; 01824 70 6000; elections@denbighshire.gov.uk

Cyngor Sir y Fflint; Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NB; 01352 702412; register@flintshire.gov.uk

Cyngor Gwynedd; Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH; 01766 771000; galwgwynedd@gwynedd.gov.uk

Cyngor Sir Ynys Môn; Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW; 01248 752519; shxcs@ynysmon.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful; Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN ; 01685 725284; electoral@merthyr.gov.uk

Cyngor Sir Fynwy; Neuadd y Sir, Y Radyr, Brynbuga, NP15 1GA; 01633 644212; elections@monmouthshire.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ; 01639 763330; elections@npt.gov.uk

Cyngor Dinas Casnewydd; Y Ganolfan Ddinesig, Heol Godfrey, Casnewydd, NP20 4UR; 01633 656656; uvote@newport.gov.uk

Cyngor Sir Penfro; Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA73 3JW; 01639 763330; electoralservices@pembrokeshire.gov.uk

Cyngor Sir Powys; Neuadd y Sir, Spa Road East, Llandrindod, LD1 5LG; 01597 826747; electoral.services@powys.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; Yr Hen Lys, Stryd yr Hen Lys, Pontypridd, CF37 1JW; 01443 490100; electoralservices@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Cyngor Sir Abertawe; Neuadd y Ddinas, Abertawe, SA1 4PE; 01792 636123; elections@swansea.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB; 01495 762200; voting@torfaen.gov.uk

Cyngor Bro Morgannwg; Y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU; 01446 729552; electoralregistration@valeofglamorgan.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; Neuadd y Dref,
Wrecsam, LL11 1AY; 01978 292020;
electoral@wrexham.gov.uk

Diwedd y ddogfen.